PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 2**

**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**

Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

## Adnodd 6

# *Sosialaeth: Ffrydiau Amrywiol*

# Cyflwyniad a Gwybodaeth Graidd

International Politics — Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd yr e-lawlyfr hwn er mwyn cynorthwyo disgyblion ac athrawon sy'n astudio'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a hefyd i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer myfyrwyr is-raddedig. Mae'r cynnwys felly wedi'i lunio i gefnogi manyleb Safon UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC. Er bod CBAC wedi rhoi cyngor ar y deunyddiau hyn, y cyhoeddwr sy'n llwyr gyfrifol am y cynnwys.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth sydd wedi cynhyrchu'r deunydd ac mae rhai cyfranwyr allanol wedi cyfrannu at rai adnoddau unigol. Ariannwyd y prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r e-lawlyfr yn ymateb i'r bwlch mewn deunydd astudio cyfrwng Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Nid cynhyrchu gwerslyfr swmpus oedd y bwriad, ond yn hytrach ddatblygu adnoddau sy'n ymateb i'r angen am wybodaeth graidd, am ymarferion ar gyfer disgyblion a chanllawiau i athrawon.

Mae E-lawlyfr 2 yn cynnwys 8 adnodd astudio unigol sy'n cydfynd ag agweddau ar fanyleb Uned 3 y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.' Mae tair elfen i bob adnodd:

**: Gwybodaeth Graidd**

**: Llawlyfr Gwaith i'r Disgyblion**

**: Canllaw i Athrawon**

Amlinellir cynnwys E-lawlyfr 2 ar y dudalen nesaf, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar fanyleb CBAC sy'n cael sylw yn yr 8 adnodd gwahanol.

Cyhoeddwyd yr e-lawlyfr dan drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw fodd, cyhyd a'ch bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Mae testun llawn y drwydded ar gael yma: https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/

| TEITL YR UNED | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR UNED |
|---|---|
| Adnodd 1: Rhyddfrydiaeth: nodweddion allweddol | 3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 2: Rhyddfrydiaeth: ffrydiau amrywiol | 3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 3: Ceidwadaeth: nodweddion allweddol | 3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 4: Ceidwadaeth: ffrydiau amrywiol | 3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 5: Sosialaeth: nodweddion allweddol | 3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| **Adnodd 6: Sosialaeth: ffrydiau amrywiol** | **3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol** |
| Adnodd 7: Cenedlaetholdeb: nodweddion allweddol | 3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 8: Cenedlaetholdeb: ffrydiau amrywiol | 3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |

**Awdur yr adnodd hwn:**

Dr. Huw Lewis

# GWYBODAETH GRAIDD

## Ffrydiau Sosialaidd Amrywiol

Y farn gyffredinol ymhlith ysgolheigion yw mai ideoleg wleidyddol a ddatblygodd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw sosialaeth, yn bennaf fel ymateb i'r newidiadau cymdeithasol ac economaidd a sgubodd ar draws Ewrop o ganlyniad i ddatblygiad y gymdeithas ddiwydiannol fodern. Byth ers y dyddiau cynnar hyn mae pwyslais ar yr angen i drawsnewid cymdeithas er gwell, a hynny ar sail egwyddorion megis cydraddoldeb a chydweithrediad, wedi bod yn nodwedd amlwg o ddadleuon sosialwyr o bob math. Eto i gyd, mae'n bwysig cofio na cheir un ffurf swyddogol ar sosialaeth. Yn hytrach, dros y blynyddoedd datblygodd ystod o ffrydiau sosialaidd gwahanol. Yma canolbwyntir ar ddwy o'r ffrydiau mwyaf pwysig: Marcsaeth a Democratiaeth Gymdeithasol.

## Marcsaeth

Heb os, y ffrwd sosialaidd fwyaf enwog yw honno sydd wedi datblygu ar sail gwaith Karl Marx. Yn wir, ni ellir astudio sosialaeth heb fynd i'r afael â syniadau Marx mewn rhyw fodd, ynghyd â'r modd y bu i amryw o'i ddilynwyr – yn enwedig Lenin – ddatblygu ei ddadleuon gwreiddiol yn ystod cyfnodau diweddarach.

**Y Feirniadaeth o Gyfalafiaeth**: Beirniadaeth o'r gymdeithas gyfalafol fodern yw gwaith Karl Marx yn bennaf. Mae'r feirniadaeth hon yn un amlweddog iawn, ond mae'n bosib mae'r elfen sydd wedi hawlio'r sylw mwyaf ymhlith y sawl a ddaeth i arddel ei ddadleuon yw'r honiad bod cyfalafiaeth yn drefn gymdeithasol ac economaidd sy'n seiliedig ar *ecsploetio'r dosbarth gweithiol*.

Craidd y ddadl hon yw cred Marx fod cyfalafiaeth yn drefn sy'n arwain at rannu cymdeithas yn ddau brif ddosbarth – y bourgeoisie (y perchnogion) a'r proletariat (y gweithwyr) – a'r dybiaeth gysylltiedig ei bod hi'n anochel y bydd yr ail o'r dosbarthiadau hyn yn cael ei ecsploetio gan y cyntaf. Deillia hyn o'r ffaith mai'r bourgeoisie yw'r dosbarth sy'n berchen ar y 'moddion cynhyrchu' – yn syml, y gweithfeydd a hefyd yr holl offer a ddefnyddir gan aelodau'r proletariat i wneud eu gwaith. Yn ogystal, y bourgeoisie fydd yn berchen ar yr holl nwyddau a fydd yn deillio o lafur y proletariat, a nhw hefyd fydd yn medru hawlio'r holl elw a ddeillia o werthu'r nwyddau hynny.

Yn nhyb Marx, mae rheolaeth y bourgeoisie o'r moddion cynhyrchu yn golygu bod y berthynas rhyngddynt ac aelodau'r proletariat yn un sy'n seiliedig ar ecsploetio anochel. Er mwyn i'r bourgeoisie fedru gwneud elw ar sail y nwyddau a gynhyrchwyd gan ddefnyddio eu gweithfeydd a'u hadnoddau, bydd angen i aelodau'r proletariat dreulio cyfnod bob wythnos yn gweithio'n ddi-dâl. Wedi'r cyfan, all y bourgeoisie ddim ond sicrhau elw i'w hun trwy dalu cyflog i'w weithwyr sy'n llai na gwir werth eu llafur. Pe bai'n talu gwerth llawn eu llafur iddynt, yna fyddai dim arian ar ôl i gael ei fancio fel elw. Mynnodd Marx fod ecsploetio o'r math hwn yn rhan hanfodol o weithredid yr economi gyfalafol ac y byddai'n parhau pa mor flaengar neu oleuedig fyddai'r cyflogwyr.

**Y Dehongliad Materol o Hanes**: Nid dim ond beirniadu cyfalafiaeth a wnaeth Marx. Aeth ati hefyd i egluro pam, yn ei dyb ef, ei bod yn drefn a fyddai'n sicr o chwalu yn y pendraw. Seiliodd Marx y dadleuon hyn ar ei ddull arbennig o ddehongli ac egluro newid hanesyddol. Cyfeirir at y dull hwn fel y *dehongliad materol o hanes*.

I ddechrau, roedd y dehongliad materol hwn yn seiliedig ar y dybiaeth bod natur y trefniadau economaidd a geid mewn unrhyw gymdeithas (neu'r hyn a ddisgrifiwyd gan Marx fel y 'sylfaen economaidd') yn sicr o ddylanwadu ar bob rhan arall o fywyd y gymdeithas honno – ei gwleidyddiaeth, ei chyfreithiau a'i diwylliant (neu'r hyn a ddisgrifiwyd gan Marx fel yr 'uwchstrwythur').

Yn ail, roedd dehongliad materol Marx yn seiliedig ar y gred mai'r hyn sy'n gyrru newid cymdeithasol rhwng gwahanol gyfnodau hanesyddol yw'r dilechdid (dialectic), sef proses barhaol o ryngweithio rhwng grymoedd cyferbyniol sydd, dros amser, yn creu gwrthdaro, ac yn sgil hynny, yn sbarduno newidiadau pellgyrhaeddol. Yn hyn o beth, roedd Marx yn dilyn Hegel. Eto i gyd, pwysleisio rôl gwrthdaro ym myd syniadau a wnâi Hegel, er enghraifft y gwrthdaro rhwng rheswm ac ofergoeliaeth Gristnogol. Fodd bynnag, gan fod Marx yn pwysleisio dylanwad y sail economaidd, tueddai ef i bwysleisio'r gwrthdaro sy'n codi o fewn y sffêr yma rhwng buddiannau gwahanol ddosbarthiadau. Yn wir, dadleuodd fod pob cyfnod hanesyddol wedi seilio ar drefniadau economaidd sydd wedi'i nodweddu gan densiwn neu wrthdaro sylfaenol. Er enghraifft, nodweddwyd y cyfnod ffiwdal gan wrthdaro sylfaenol rhwng buddiannau economaidd y meistri a'r taeogion.

Nid yw'r cyfnod cyfalafol yn ddim gwahanol, yn ôl Marx, i gyfnodau hanesyddol cynt. Fel y gwelwyd eisoes, nodweddir trefniadau economaidd y gymdeithas gyfalafol gan wrthdaro sylfaenol rhwng buddiannau'r ddau brif ddosbarth – y bourgeoisie a'r proletariat. Mae rheolaeth y cyntaf o'r dosbarthiadau hyn ar y moddion cynhyrchu, a hefyd ei angen i ddefnyddio'r moddion hyn i greu elw, yn arwain at ecsploetio aelodau'r proletariat. Gan fod y fath densiynau yn bodoli o dan gyfalafiaeth, tybiai Marx fod cwymp y ffurf hon ar gymdeithas yr un mor anochel ag yr oedd cwymp ffurfiau cymdeithasol cynt megis ffiwdaliaeth.

**Y Chwyldro a Chomiwnyddiaeth**: Y tu hwnt i egluro pam ei bod yn credu fod cwymp cyfalafiaeth yn anochel, aeth Marx ati hefyd i geisio manylu ar sut fyddai hyn yn digwydd. Dros amser, fyddai'r gwrthdaro sylfaenol a fodolai rhwng buddiannau'r dosbarth gweithiol a'r bourgeoisie ddim ond yn dwysáu ymhellach wrth i gyfalafiaeth brofi cyfres o argyfyngau dwys. Wrth i hyn ddigwydd, tybiai Marx y byddai'r dosbarth gweithiol yn datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o'u safle gorthrymedig o dan gyfalafiaeth a phan fyddai'r ymwybyddiaeth hon yn cyrraedd uchafbwynt byddent yn datblygu i fod yn rym chwyldroadol ac yn gwrthryfela yn erbyn y drefn.

Ar y cyfan, digon bras yw'r manylion a geir gan Marx ynglŷn ag union natur y chwyldro hwn a hefyd natur y gymdeithas gomiwnyddol a ddaw yn ei sgil. Fodd bynnag, mae rhai pwyntiau pendant yn cael eu gwneud ganddo.

I ddechrau, cam cwbl sylfaenol yn ei dyb ef yw sefydlu *unbennaeth y proletariat* yn gynnar yn ystod y chwyldro. Golyga hyn fod y dosbarth gweithiol yn cipio grym i'w hunain. Yn nhyb Marx, bydd angen unbennaeth o'r fath yn ystod y cyfnod cynnar er mwyn sicrhau nad yw'r bourgeoisie yn ad-drefnu gan danseilio'r chwyldro a hefyd er mwyn sicrhau bod y broses o sefydlu comiwnyddiaeth yn mynd rhagddi'n llwyddiannus.

Yna, wrth sefydlu comiwnyddiaeth un o'r camau hollbwysig, fyddai dileu perchnogaeth breifat o'r moddion cynhyrchu – hynny yw yr adnoddau economaidd hynny a fu gynt yn eiddo i'r bwrgeiswyr ac yn sail i'w grym. Yn hytrach na pharhau fel asedau preifat i gyfalafwyr unigol, bydd yr adnoddau hyn yn cael eu trosglwyddo i ddwylo'r bobl yn gyffredinol. Trwy wneud hynny, gellir sicrhau bod y broses o gynhyrchu a dosbarthu nwyddau yn troi o fod yn un sy'n seiliedig ar y nod o wneud elw i unigolion i fod yn un sy'n anelu i ateb gwir anghenion cymdeithasol. Wrth i'r broses hon fynd yn rhagddi, bydd y gwahaniaethau dosbarth a nodweddai'r gymdeithas gyfalafol yn diflannu'n raddol ac yn y pendraw fe fydd yr angen am wladwriaeth hefyd yn diflannu.

**Marcsaeth-Leniniaeth**: Bu farw Marx ym 1883. Fodd bynnag, ni ddaeth datblygiad syniadau Marcsaidd i ben gyda marw Marx ei hun. Parhaodd ei olynwyr i'w trafod gan addasu arnynt ac ychwanegu atynt. Un o'r cyfraniadau mwyaf arwyddocaol o safbwynt hanesyddol oedd ysgrifau Vladimir Ilich Lenin, arweinydd y chwyldro comiwnyddol cyntaf ym 1917, ac dilyn hynny arweinydd cyntaf yr Undeb Sofietaidd.

Dadleuodd Lenin na ddylai Marcswyr gymryd yn ganiataol fod cwymp cyfalafiaeth yn gwbl anochel ac y byddai aelodau'r dosbarth gweithiol yn codi i arwain y chwyldro. Dadleuodd nad oedd y dosbarth gweithiol ar ei ben ei hun yn meddu ar yr ymwybyddiaeth wleidyddol angenrheidiol er mwyn sbarduno ac arwain chwyldro o'r fath. O ganlyniad rhaid oedd wrth garfan flaengar o chwyldroadwyr a fyddai'n gweithredu fel *vanguard* ar ran y dosbarth gweithiol. Rôl y garfan yma oedd ymsefydlu fel plaid wleidyddol – nid plaid ac iddi aelodaeth dorfol eang ond yn hytrach garfan ddethol o chwyldroadwyr proffesiynol ac ymroddedig a oedd â'r gallu i gynnig arweiniad gwleidyddol ac ideolegol i eraill.

O ganlyniad pan fu i blaid Folsieficaidd Lenin gipio grym yn Rwsia ym 1917, hawliwyd eu bod yn gwneud hynny yn enw buddiannau'r dosbarth gweithiol ar draws y wlad. Cyflwynwyd dadleuon tebyg hefyd yn dilyn chwyldroadau comiwnyddol diweddarach, er enghraifft yn Tsieina ym 1949 a Ciwba ym 1959. At ei gilydd felly, yn dilyn Lenin, y duedd ymhlith Marcswyr oedd credu bod angen trefnu'n wleidyddol er mwyn prysuro dyfodiad y chwyldro yn hytrach na thybio y byddai'n ganlyniad anochel i esblygiad hanes fel y dadleuodd Marx.

## Democratiaeth Gymdeithasol

Gellir dehongli Democratiaeth Gymdeithasol fel ffrwd o sosialaeth sy'n arddel safbwyntiau mwy cymedrol na'r Marcswyr. Datblygodd yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn sgil meddwl pellach gan ffigyrau megis yr Almaenwr, Eduard Bernstein, yn ei gyfrol *Evolutionary Socialism* (1898). A siarad yn gyffredinol, datblygodd Democratiaeth Gymdeithasol ar sail amheuaeth o ddwy elfen allweddol o'r byd-olwg Marcsaidd:

i: y pwyslais ar chwyldro fel yr unig fodd o sicrhau newid gwleidyddol a chymdeithasol ystyrlon;

ii: y gred bod rhaid dymchwel cyfalafiaeth yn llwyr er mwyn sicrhau mesur o gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.

**Y llwybr democrataidd**: Yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd ehangu sylweddol ar yr etholfraint, ar draws Ewrop, gan olygu bod nifer cynyddol o'r dosbarth gweithiol yn cael yr hawl i bleidleisio. Er enghraifft, ym Mhrydain, estynnwyd yr hawl i nifer cyfyngedig o weithwyr ym 1867 ac ehangwyd ar hyn ym 1884. Yna erbyn 1918 estynnwyd yr hawl i ddynion yn gyffredinol a hefyd i nifer cyfyngedig o fenywod.

Arweiniodd y newidiadau hyn at sefyllfa lle roedd gan y dosbarth gweithiol lais gwleidyddol tipyn cryfach na oedd ganddo cynt, ac yn sgil hynny roedd tebygolrwydd i'w fuddiannau gael mwy o sylw. O ganlyniad, daeth nifer cynyddol o sosialwyr i'r casgliad nad oedd modd cynnal y ddadl Farcsaidd o blaid yr angen am chwyldro treisgar. Roedd ehangu'r etholfraint yn cynnig llwybr newydd i'r dosbarth gweithiol – bellach roedd modd i sosialaeth fod yn achos a gâi ei hyrwyddo'n raddol trwy gyfrwng y broses ddemocrataidd.

**Ffrwyno a diwygio cyfalafiaeth**: Honnodd Marx fod cyfalafiaeth yn drefn a fyddai'n arwain at dlodi parhaol a chynyddol ymhlith y dosbarth gweithiol. Fodd bynnag, o tua 1870 ymlaen gwelwyd cynnydd graddol mewn cyflogau a safonau byw ar draws nifer o wledydd Ewrop. Yn arwyddocaol, ac yn gwbl groes i broffwydoliaethau Marx, roedd hwn yn gynnydd a estynnai i bob dosbarth cymdeithasol ac nid dim ond rhai aelodau cefnog o'r dosbarth bwrgeisiol. Ar ben hynny, ni welwyd y math o bolareiddio cymdeithasol rhwng y proletariat a'r bourgeoisie a gafodd ei ddarogan gan Marx. Yn hytrach, yn sgil newidiadau o fewn y farchnad lafur, cyflogwyd mwy a mwy o bobl mewn meysydd proffesiynol (gweision sifil, athrawon, cyfreithwyr ayb), gan esgor ar garfan gymdeithasol newydd – y dosbarth canol – nad oedd yn perthyn i'r proletariat na'r bourgeoisie.

Yn sgil tueddiadau o'r fath, daeth nifer o sosialwyr i'r casgliad nad oedd y disgrifiad Marcsaidd o gyfalafiaeth – trefn a nodweddid gan ecsploetio economaidd amrwd ynghyd â gwrthdaro dosbarth di-baid – yn un a oedd bellach yn dal dŵr. Roedd yn drefn a oedd wedi addasu ac felly gellid codi cwestiynau ynglŷn â'r angen i'w dymchwel yn llwyr.

O ystyried hyn, nid yw'n syndod fod democratiaid cymdeithasol yr ugeinfed ganrif, er enghraifft aelodau Plaid Ddemocrataidd Gymdeithasol yr Almaen, Plaid Lafur y Deyrnas Unedig neu Blaid Sosialaidd yr Eidal, wedi mabwysiadu amcanion cymdeithasol a gwleidyddol tipyn mwy cyfyng. Yn hytrach na sôn am ddymchwel cyfalafiaeth yn llwyr, tueddwyd i roi'r pwyslais ar yr angen i'w ffrwyno a'i diwygio trwy fabwysiadu polisïau tebyg i'r canlynol:

: **Yr Economi Gymysg**: Dyma drefniant economaidd sy'n sefyll hanner ffordd rhwng cyfalafiaeth farchnadol gwbl rydd a pherchnogaeth gyhoeddus o bob agwedd ar yr economi. Mae democratiaid cymdeithasol wedi tueddu i gydnabod bod gan y farchnad rydd ei lle ar sail ei gallu i hybu menter a chynhyrchu cyfoeth. O ganlyniad, dadleuwyd y dylid cyfyngu mesurau sy'n sefydlu pherchnogaeth gyhoeddus i feysydd penodol – uchelfannau'r economi megis trydan, glo, dur a'r rheilffyrdd – tra bo gweddill yr economi'n parhau mewn perchnogaeth breifat.

: **Rheoli Economaidd**: Er bod democratiaid cymdeithasol yn derbyn bod gan y gyfalafiaeth ei rhinweddau, maent hefyd yn gweld bod angen ei rheoleiddio er mwyn sicrhau twf economaidd cyson a gwarchod rhag cyfnodau o ddiweithdra neu chwyddiant sydyn. Golyga hyn fod democratiaid cymdeithasol fel rhyddfrydwyr modern wedi dadlau o blaid polisïau macro-economaidd Keynes sy'n defnyddio gwariant cyhoeddus a threthiant er mwyn rheoleiddio cyfalafiaeth.

: **Gwladwriaeth Les**: Dyma'r dull a ffafrir gan ddemocratiaid cymdeithasol er mwyn ceisio dofi'r anghyfartaledd all godi o dan gyfalafiaeth. Trwy'r wladwriaeth les – sefydliadau megis y drefn addysg, y gwasanaeth iechyd, y drefn fudd-daliadau – gall y wladwriaeth ail-ddosbarthu cyfoeth a chyfleoedd, gan geisio sicrhau mwy o gydraddoldeb ar draws cymdeithas a lleihau tlodi.

Yn y cyfnod rhwng tua 1945 a'r 1970au cynnar tybiai nifer fod y math o syniadau a gâi eu harddel gan ddemocratiaid cymdeithasol – syniadau a oedd yn gorgyffwrdd yn helaeth ag elfennau o ryddfrydiaeth fodern – wedi dod i gynrychioli'r 'synnwyr cyffredin' gwleidyddol ar draws y mwyafrif o wladwriaethau'r gorllewinol. Eto i gyd, roedd hwn yn gyfnod o dwf economaidd cyson, diweithdra isel a chwyddiant isel ac o ganlyniad roedd modd i wladwriaethau ariannu darpariaethau lles mwyfwy hael. Fodd bynnag, arweiniodd dirwasgiad mawr y 1970au at argyfwng i'r sawl oedd yn arddel democratiaeth gymdeithasol a chreodd hyn y gwagle gwleidyddol a alluogodd i ddadleuon gwahanol iawn y Dde Nerwydd ddechrau ennill tir (gweler Adnodd 4).